# Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

**2023 dsc 2**

*Gorfodi*

**17 Sancsiynau sifil**

(1) Yn yr adran hon, ystyr "Deddf 2008" yw Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p. 13).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth, mewn perthynas â'r drosedd o dan adran 5, y gellid ei gwneud o dan Ran 3 o Ddeddf 2008 (sancsiynau sifil)—

(a) os oedd awdurdod lleol yn rheoleiddiwr at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf honno, a

(b) os oedd y drosedd yn drosedd berthnasol mewn perthynas â swyddog gorfodi at ddibenion Rhan 3 o'r Ddeddf honno.

(3) Mae adrannau 63 i 70 o Ddeddf 2008 (canllawiau; arfer pwerau; talu i'r Gronfa Gyfunol) yn gymwys i ddarpariaeth a wneir o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys i ddarpariaeth a wneir o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno.

(4) Mae adran 60(1) a (2) o Ddeddf 2008 (ymgynghori) yn gymwys i reoliadau o dan is-adran (1) fel y maent yn gymwys i orchymyn o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno.

(5) At ddibenion is-adran (3) a (4), mae cyfeiriadau at reoleiddiwr yn adrannau 60 a 63 i 70 o Ddeddf 2008 i'w darllen fel cyfeiriadau at awdurdod lleol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 mewn grym ar 7.6.2023, gweler **a. 22(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, Adran 17.